

Y Strategaeth a Ffeirir - Fersiwn Hawdd ei Darllen

Mae hon yn fersiwn hawdd ei darllen o'r Strategaeth a Ffeirir o ran Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin. Dogfen yw'r Strategaeth a Ffeirir sy'n dechrau nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Gaerfyrddin drwy bennu faint o waith datblygu sydd ei angen yn y Sir a'r ardal gyffredinol lle bo'r gwaith hwn yn debygol o ddigwydd.

Wrth lunio'r Strategaeth a Ffeirir, yr oedd angen dealltwriaeth arnom o'r prif faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae'r Sir yn eu hwynebu. Er mwyn ceisio deall hyn, rydym wedi cyfarfod â chynghorau tref a chymunedau, aelodau etholedig y Cyngor Sir, datblygwyr a phartion eraill sydd â buddiant i glywed am yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r dylanwad y gall y CDLI ei gael ar y materion hyn.

Dyma rai o'r materion y tynnwyd sylw atynt:



Diffyg tai newydd yn cael eu hadeiladu.



Diffyg cyfleoedd gwaith, band eang a gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.



Pobl ifanc yn gadael y Sir.



Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.



Gwasgaru twf mewn ffordd cynaliadwy cynaliadwy.


Fel rhan o lunio'r CDLI Diwygiedig, rydym wedi ystyried y materion a'r dylanwadau ac mae hyn wedi cefnogi creu Gweledigaeth a fydd yn llywio'r CDLI diwygiedig.



Ein Gweledigaeth - Un Sir Gâr

Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog eu gwerthfawrogi a'u parchu. Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau i bobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir.


Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.



Sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn tyfu?

Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn ystyried cyfeiriad y twf o ran poblogaeth a thai yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin, a sut y bydd yn cael ei wasgaru ledled y Sir dros gyfnod y Cynllun, sef 2018-2033.

Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi edrych ar nodweddion poblogaeth Sir Gaerfyrddin.



Canfuom y canlynol:

- Mae bron 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru yn byw yn Sir Gaerfyrddin, sef 186,452 o bobl.
- Mae'r boblogaeth wedi cynyddu gan 12,800 ers 2001.
- Y brif effaith ar y newid ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yw'r bobl sy'n symud mewn i'r Sir.
- Mae mwy o bobl yn marw yn Sir Gaerfyrddin na sy'n cael eu geni.
- Mae nifer fawr o bobl 15-19 oed yn gadael y Sir, ac maent yn llai tebygol o ddychwelyd wrth iddynt fynd yn hŷn.
- Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae canran y bobl dros 65 oed yn cynyddu.



Sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn tyfu?

Er mwyn cyfrifo sut boblogaeth fydd yn y dyfodol a nifer y tai y dylem gynllunio ar eu cyfer rydym yn ystyried gwybodaeth megis sut y mae'r poblogaeth wedi newid yn y Sir dros y degawdau diwethaf. Wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir, rydym wedi ystyried 8 tuedd wahanol yn y boblogaeth dros gyfnodau amrywiol, ac rydym wedi dewis yr opsiwn a ffefrir ymysg y rhain.

Wrth ddewis yr opsiwn a ffefrir, rydym yn ystyried sut y gall ffactorau cymdeithasol ac economaidd gael dylanwad ar boblogaeth Sir Gaerfyrddin. Mae rhai o'r ffactorau hyn yn cynnwys creu cyfleoedd i pobl ifanc fyw a gweithio yn y Sir, darparu mwy o dai fforddiadwy a chefnogi'r amcanion adfywio sydd gan y Sir.








- Mae'r amcanestyniad a ddewisir gennym o ran y boblogaeth yn dangos y bydd rhaid i ni:
- ✓ Darparu 9,887 o dai newydd dros y 15 mlynedd nesaf.
 - ✓ Bydd angen datblygu'r tai newydd hyn ar safleoedd mawr a safleoedd bach er mwyn diwallu anghenion gwahanol o ran tai ledled y Sir.
 - ✓ Cynnwys tai fforddiadwy.



Sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn tyfu?


Mae ail ran y Strategaeth a Ffefir yn ystyried sut y bydd y tai a'r safleoedd gwaith y mae angen i ni eu darparu yn cael eu dosbarthu ledled y Sir. Fel rhan o'r broses hon buom yn ystyried 6 gwahanol opsiwn gofodol ar gyfer dosbarthu - i gyd yn wahanol i'w gilydd. Buom yn ystyried ffactorau megis y canlynol:

- ✔ Lleihau nifer ein teithiau a'r pellteroedd teithio;
- ✔ Lleoliad gwasanaethau a chyfleusterau;
- ✔ Yr ardaloedd sydd â seilwaith ategol, megis systemau dŵr a charthffosiaeth;
- ✔ Yr effeithiau ar yr amgylchedd;
- ✔ Mynediad i'r prif ffyrdd a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus;
- ✔ Lleoliad safleoedd gwaith;
- ✔ Lleoliad tai newydd;
- ✔ Yr ardaloedd sy'n boblogaidd ar gyfer adeiladu.



Sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn tyfu?

Ar ôl i ni ystyried yr holl ffactorau hyn, sylweddolom mai'r ffordd orau o wasgaru'r twf oedd drwy ddefnyddio ystod o wahanol opsiynau i greu opsiwn newydd o'r enw "Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy".



Ein rheswm dros greu yr opsiwn newydd yma oedd i sicrhau y bydd dosbarthiad twf ledled y Sir yn ystyried y canlynol:

- ✓ Gall twf mwy cynaliadwy gael ei gyflawni mewn rhai ardaloedd;
- ✓ Darperir cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig;
- ✓ Darperir tai lle bo'r farchnad dai yn fywiog;
- ✓ Darperir tai lle bo'r angen;
- ✓ Cyflawni'r twf lle bo seilwaith digonol;
- ✓ Mae'r buddsoddiad a'r manteision economaidd i'r Sir yn cael eu cydnabod.



Polisiau Cynllunio Strategol

Er bod y Strategaeth newydd hon yn ystyried sut y bydd y twf yn cael ei wasgaru ledled y Sir, bydd y safleoedd a neilltuir ar gyfer datblygiad yn y CDLI Diwygiedig yn cael eu nodi pan fyddwn yn cyhoeddi'r Fersiwn Adneuol o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Er mwyn amlinellu sut y byddwn yn bwriadu cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth a Ffefrir, rydym hefyd wedi pennu'r 19 polisi strategol sy'n cynnwys ystod o feysydd pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys:



- Twf Strategol
- Adwerthu a Chanol Trefi
- Darparu Tai Newydd
- Tai Fforddiadwy
- Safleoedd Straegol
- Gwaith a'r Economi
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru
- Seilwaith
- Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr
- Yr Economi Ymwelwyr
- Creu Ymdeimlad o Le, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da
- Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
- Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol
- Newid yn yr Hinsawdd
- Dosbarthu Cynaliadwy - Fframwaith Aneddiadau
- Trafnidiaeth a Hygyrchedd
- Adnoddau Mwynol
- Rheoli Gwastraff
- Datblygu Gwledig

Er bod y Strategaeth uchod yn ystyried datblygiad Sir Gaerfyrddin dros y 15 mlynedd nesaf, rydym hefyd wedi llunio dwy ddogfen sy'n ystyried pa mor gynaliadwy yw'r Strategaeth, yn ogystal ag unrhyw effaith ar safleoedd yn y Sir a warchodir gan Ewrop. Yr enw ar y rhain yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.



Beth sy'n digwydd yn awr?

Cynhelir ymgynghoriad 8 wythnos ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, yn ogystal â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, rhwng 12 Rhagfyr 2018 a 8 Chwefror 2019.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd a'r partïon sydd â buddiant gyflwyno'u sylwadau'n ysgrifenedig i'r Cyngor. Bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cofnodi a'u hystyried gan y Cyngor.

Bydd y Strategaeth a Ffefrir a'r dogfennau atodol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ym mhob un o brif swyddfeydd y Cyngor.



Hoffech ddweud eich dweud?

Gellir lawrlwytho'r ffurflen ymgynghori ar wefan y Cyngor, mewn llyfrgelloedd lleol cyhoeddus ac ym mhob un o brif swyddfeydd y Cyngor.

